**Ymateb Ysgrifenedig i Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant ar Fesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol gan Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol**

**Mawrth 2011**

Cyflwynwyd Mesur Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol yn y Senedd ar 1Rhagfyr 2010. Prif ddiben y Mesur yw diwygio trefniadau atebolrwydd plismona yng Nghymru a Lloegr drwy waredu awdurdodau heddlu a gosod Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu etholedig yn eu lle. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwrthwynebu'r diwygiadau hyn yn barhaus, ond gan gydnabod bod plismona yn fater nad yw wedi'i ddatganoli, rydym ni hefyd wedi ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r Swyddfa Gartref i geisio datblygu datrysiad i Gymru sy'n adlewyrchu ac yn parchu buddiannau datganoledig.

Gan nad yw materion plismona wedi'u datganoli yng Nghymru nid ydym yn gallu atal y cynigion hyn rhag cael eu gweithredu yma, ond rwyf i'n cytuno'n llwyr â'r mwyafrif o argymhellion y Pwyllgor a fyddai'n helpu i hwyluso'r trawsnewidiad yng Nghymru.

**Ceir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

**Prif argymhelliad:**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ohirio cyflwyno'r agweddau hynny ar y mesur sy'n ymwneud â diddymu Awdurdodau Heddlu a sefydlu Comisiynwyr yr Heddlu a Phanelau Heddlu a Throseddu yng Nghymru, o leiaf nes bydd effeithiolrwydd eu heffaith yn Lloegr wedi ei asesu.

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf i'n cytuno â'r argymhelliad hwn. Rwyf i wedi dweud ers tro nad wyf i'n cytuno â chyflwyno Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, yn yr un modd â chyrff eraill megis Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Awdurdodau Heddlu Cymru. Byddaf yn ysgrifennu at Nick Herbert AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Blismona, yn amlygu'r argymhelliad hwn a gofyn iddo roi ystyriaeth lawn iddo.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 1.**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i weithio gydag Awdurdodau'r Heddlu i ddatblygu ymagwedd gyson tuag at ymgysylltiad cymunedol ac i weithio mewn partneriaeth. Dylai hyn adeiladu ar y cynnydd a wnaethpwyd eisoes yng Nghymru, a gwella'r cyfleoedd i bobl leol ddylanwadu ar blismona o fewn y trefniadau presennol.

**Ymateb: Derbyn**

O ystyried yr hinsawdd gyfredol, mae gweithio mewn partneriaeth yn bwysicach nag erioed o'r blaen. Rhaid i bob sefydliad ddod o hyd i ffyrdd o weithio'n fwy clyfar ac mae hynny'n cynnwys yr heddlu. Fodd bynnag, fel yr eglura'r Adroddiad, mae Awdurdodau Heddlu yng Nghymru eisoes yn gweithio'n dda ar y cyd, er bod peth lle i wella ac nid yw'n ymddangos bod unrhyw reswm da dros newid y system yng Nghymru, dim ond am nad yw i'w gweld yn

gweithio gystal yn Lloegr. Bydd fy swyddogion yn gweithio gyda swyddogion y Swyddfa Gartref i ddatblygu'r ymagwedd gyson a amlinellir uchod.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 2.**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisïau'n briodol, gan gynnwys y Strategaeth 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn merched, i sicrhau bod modd cyflawni ac integreiddio eu hamcanion yn yr hinsawdd polisi a fydd yn deillio o fersiwn derfynol y Mesur .

**Ymateb: Derbyn yn rhannol.**

Rydym ni'n derbyn bod plismona yn bwnc nad yw wedi'i ddatganoli, ac yn cytuno lle bo'n briodol bod angen i bolisïau a strategaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru fod yn gyson â chynlluniau a blaenoriaethau plismona, ond rhaid i integreiddio ac alinio polisïau fod yn broses ddwy ffordd. Byddem yn disgwyl i unrhyw ddarpar Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ystyried y polisïau a gweithdrefnau sydd eisoes wedi'u sefydlu wrth osod blaenoriaethau. Wedi dweud hynny bydd fy swyddogion i yn monitro'r sefyllfa unwaith y bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu wedi'u hethol ac yn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu priodol. Rwyf i'n awgrymu mai rhannu cynlluniau ar y lefel leol o bosibl fyddai'r ffordd orau ymlaen ar gyfer sicrhau bod alinio amcanion yn cael ei gyflawni.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 3.**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i roi canllawiau statudol clir i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar flaenoriaethau cenedlaethol .

**Ymateb: Derbyn**

Byddaf yn gofyn i fy swyddogion ddechrau'r drafodaeth hon gyda'u cymheiriaid yn y Swyddfa Gartref. Os caiff canllawiau o'r fath eu llunio, ni all ond helpu unrhyw Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i ddeall y blaenoriaethau plismona ehangach.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 4.**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i argymell bod Panelau yr Heddlu a Throseddu yn cael eu gweithredu mewn modd sy'n seiliedig ar ddull cydsyniol â'r Comisiynydd, a'r ddwy ochr yn meddu ar bwerau cyfartal. Rhagwelwn y byddai hyn yn golygu y byddai'r Comisiynydd a'r Panel yn ymgymryd â rôl gyfartal wrth benodi neu ddiswyddo'r Prif Gwnstabl, pennu'r praesept a chytuno ar flaenoriaethau strategol drwy Gynllun lleol yr Heddlu a Throseddu..

**Ymateb: Derbyn**

Y diffyg pwerau sydd ar gael i Banelau yr Heddlu a Throseddu i graffu'n llawn ar waith Comisiynydd yr Heddlu yw un o'n prif bryderon. Rwyf i wedi bod yn bleidiol i gyfaddawd a fyddai'n gweld cadw Awdurdodau'r Heddlu, gyda Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu

etholedig yn gweithredu fel cadeirydd. Gwrthododd y Swyddfa Gartref y trefniant cyfaddawd hwn ond byddai'r cynnig uchod yn caniatáu rhai mesurau diogelwch ychwanegol a byddaf yn gofyn i fy swyddogion ddechrau'r drafodaeth hon gyda'u cymheiriaid yn y Swyddfa Gartref.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 5.**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ddarparu canllawiau ar sefydlu proses gyson, a fydd yn golygu y bydd Comisiynwyr a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn sicrhau bod eu hagendâu a'u hamcanion strategol eu hunain wedi'u halinio. .

**Ymateb: Derbyn**

Byddaf yn gofyn i fy swyddogion ddechrau'r drafodaeth hon gyda'u cymheiriaid yn y Swyddfa Gartref ar y mater hwn. Gall hyn ond helpu i sicrhau nad yw blaenoriaethau eraill yn mynd ar goll ymysg unrhyw rai y byddai unrhyw ddarpar Gomisiynydd wedi'u dynodi yn ystod yr ymgyrch etholiadol.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 6.**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i egluro sut y bydd trefniadau llywodraethiant lleol dros faterion diogelwch cymunedol yn gweithio yn y cyd-destun Cymreig, yn dilyn unrhyw newidiadau'n deillio o'r Mesur.

**Ymateb: Derbyn**

Rwyf i eisoes wedi ysgrifennu at Nick Herbert AS i ofyn iddo ddiwygio'r Mesur yn sgil y ffaith na chafodd y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ei basio, ac rwyf i'n deall bod y diwygiadau hynny'n cael eu paratoi ar hyn o bryd. Bydd fy swyddogion yn eu hystyried yn ofalus cyn gynted ag y byddant ar gael gan gymryd unrhyw gamau angenrheidiol i sicrhau na fydd llywodraethiant lleol yng Nghymru dros faterion diogelwch cymunedol yn cael ei niweidio gan y Mesur.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 7.**
Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i bwysleisio y dylai barhau i ddatblygu protocolau eglur i arwain y berthynas rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a Llywodraeth ganolog.

**Ymateb: Derbyn**

Mae hon yn ymagwedd synhwyrol. Bydd angen arweiniad gan y llywodraeth ganolog gan fod diffyg manylion yn y cynigion sydd yn y Mesur ar hyn o bryd. Byddaf yn gofyn i fy swyddogion godi'r mater hwn gyda swyddogion y Swyddfa Gartref.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gael trafodaethau gyda Llywodraeth y DU i'w pherswadio i ailedrych ar effeithiau ariannol y Mesur ar Awdurdodau Lleol, ac i ystyried adolygu'r trefniadau cyllido arfaethedig ar gyfer Panelau yr Heddlu a Throseddu yn unol â hynny.

**Ymateb: Derbyn**

Mae hwn yn rhywbeth yr wyf i'n teimlo'n gryf amdano, ac rwyf i'n gwybod bod gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd bryderon difrifol ynglŷn â'r gost bosibl y gallai awdurdodau lleol ei hwynebu o ganlyniad i'r cynigion yn y Mesur. Rwyf i wedi codi'r ffaith na fydd y cyllid arfaethedig ar gyfer un swyddog yn ddigonol gyda Nick Herbert yn flaenorol. Bydd fy swyddogion yn codi hyn gyda swyddogion y Swyddfa Gartref ar y cyfle cyntaf posibl.

**Goblygiadau Ariannol** - Dim. Bydd unrhyw gostau staff perthnasol yn cael eu tynnu o gyllidebau'r isadrannau.